Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Taliadau Annibynnol

2023-24

Mehefin 2024

BWRDD **TALIADAU**
REMUNERATION BOARD

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swyddi yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Mae copïau o'r Penderfyniad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:

Clerc Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Taliadau@Senedd.Cymru**

Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Taliadau Annibynnol

2023-24

Mehefin 2024

BWRDD **TALIADAU**
REMUNERATION BOARD

Cynnwys

1. Rhagair y Cadeirydd 6

Ein Blwyddyn 2023-24 8

2. Gwaith y Bwrdd 11

Beth yw'r Bwrdd? 11

Beth yw'r Penderfyniad? 11

Sut mae'r Penderfyniad yn cael ei weinyddu? 11

Egwyddorion y Bwrdd 12

Rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y Chweched Senedd 12

3. Penderfyniad ymatebol 14

Costau busnes 14

Cyflogau Aelodau 15

Cyflogau Staff 15

Ffyrdd o weithio 15

Cynllun pensiwn yr Aelodau 16

Treuliau eithriadol 16

Diogelwch 17

4. Penderfyniad symlach 18

5. Penderfyniad cynaliadwy 20

Diwygio'r Senedd 20

Adolygiad o'r cymorth i grwpiau gwleidyddol 20

Adolygiad o gyflogau'r Aelodau a chymorth personol 21

Adolygiad o ffyrdd o weithio 21

Adolygiad o gymorth staffio 21

6. Hyrwyddo ymddiriedaeth ac ymgysylltu 22

Ymgysylltu â'r Aelodau a'u staff 22

Trafodaethau gyda Chomisiwn y Senedd 23
Rhwydweithiau'r DU 23
Ymateb i argymhellion yr adolygiad canol tymor o effeithiolrwydd 23
7. Edrych tua'r dyfodol 25
Atodiad A - Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd ar gyfer 2021-22 26
Tabl 1 - Ffioedd aelodau'r bwrdd 27
Tabl 2 – Teithio a chynhaliaeth aelodau'r Bwrdd 28
Tabl 3 - Costau ychwanegol 29
Tabl 4 - Cyfanswm y costau 29

1. Rhagair y Cadeirydd

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r adroddiad hwn ar waith y Bwrdd yn ystod 2023-24.

Eleni gwelwyd datblygiadau cyfansoddiadol a gwleidyddol sylweddol yn y Senedd gyda heriau costau byw parhaus a phwysau ariannol, deddfwriaeth wedi'i chyflwyno i ddiwygio'r Senedd, a Phrif Weinidog newydd yn cael ei ethol.

Bu'n flwyddyn brysur i'r Bwrdd hefyd, yn gwneud penderfyniadau yng nghyd-destun y rhagolygon cyllidebol newidiol hyn ac wrth ystyried goblygiadau diwygio'r Senedd. Mae'r Bwrdd wedi cyfrannu tystiolaeth i Bwyllgorau'r Senedd ac wedi cael deialog adeiladol â Chomisiwn y Senedd ynghylch meysydd o ddiddordeb a rennir, megis diwygio'r Senedd a'r gefnogaeth y gellid eu darparu i Aelodau yn y Seithfed Senedd.

Rwy'n falch bod holl adolygiadau thematig y Bwrdd a fydd yn llywio'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd wedi dechrau ac yn mynd rhagddynt yn dda, gan fod adnoddau llawn ar gael erbyn hyn ar gyfer ysgrifenyddiaeth ac ymchwil y Bwrdd; rwy'n ddiolchgar i Gomisiwn y Senedd am ddarparu'r adnoddau i alluogi'r Bwrdd i ymgymryd â'i raglen waith bwysig cyn y Seithfed Senedd.

Mae'r adolygiadau eisoes wedi tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod gan Aelodau ddigon o hyblygrwydd i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau wrth i amgylchiadau newid, o fewn fframwaith sy'n nodi'n glir sut y gallant hawlio am eu costau busnes; cyflwynodd adolygiad blynyddol eleni nifer o newidiadau sydd wedi ymateb i anghenion newidiol yr Aelodau.

Mae'r Bwrdd wedi rhoi pwyslais arbennig ar ymgysylltu ag ystod eang o Aelodau a staff cymorth eleni i lywio ei waith adolygu blynyddol a'i adolygiadau thematig; rydym wedi cyfarfod â mwy o Aelodau yn ffurfiol ac yn anffurfiol nag erioed o'r blaen, rydym wedi ymgysylltu ag Aelodau, staff a chynrychiolwyr yr undebau, ac wedi ymweld â swyddfeydd etholaeth i gyfarfod ag Aelodau a staff i ddeall safbwyntiau y tu hwnt i Dŷ Hywel.

Mae gwaith y Bwrdd hefyd wedi'i lywio gan ymchwil gymharol ryngwladol a'r hyn a ddysgwyd yn neddfwrfeydd eraill y DU am sut i gefnogi Aelodau. Mae'r cyfleoedd cyfnewid gwybodaeth a dysgu ar y cyd wedi bod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu polisïau i ddiwallu anghenion y Senedd yn y presennol a'r dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi gweithgareddau'r Bwrdd, ei waith ymgysylltu, ei gynnydd ar adolygiadau thematig a phenderfyniadau allweddol yn ystod 2023-24, ac mae wedi'i drefnu yn ôl y pedwar amcan strategol y mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i'w cyflawni yn ystod y tymor hwn.

Rwy'n ddiolchgar i'r holl Aelodau hynny a'u staff sydd wedi rhoi o'u hamser i gyfarfod â'r Bwrdd neu gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar adolygiadau thematig y Bwrdd. Rwy'n ymwybodol iawn o ba mor brysur yw dyddiaduron Aelodau, felly mae'n galonogol bod cymaint o bobl yn fodlon rhannu eu profiadau a'u harbenigedd i lywio ein gwaith.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'm cyd-aelodau ar y Bwrdd: Y Fonesig Jane Roberts, Syr David Hanson, Mike Redhouse a Hugh Widdis am eu gwaith caled a'u cyfraniad rhagorol.

Dr Elizabeth Haywood

Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Ein Blwyddyn 2023-24

PENDERFYNIADAU SYLWEDDOL

CYFLOG YR AELODAU

bydd y cap o 3% yn parhau

CYFLOG STAFF YR AELODAU

Cynnydd o 5.7% yng nghyflogau staff cymorth, cynnydd o 6.9% - 8.6% i bob pwrpas; taliad costau byw ychwanegol; codiad parhaol Cyflog Byw Gwirioneddol

ADOLYGU AC YMATEB

Wedi cyflwyno proses symlach a mwy effeithlon o hawlio costau busnes

EIN GWAITH

CYFARFODYDD AG ARWEINWYR Y PLEIDIAU

i drafod cymorth i bleidiau gwleidyddol a chyflogau'r Aelodau

CHWECH

o gyfarfodydd Bwrdd

YMGYSYLLTU

Gwnaethom gyfarfod â 34 Aelod o'r Senedd

NAW

o gyfarfodydd swyddfeydd etholaethol

DEDDFWRIAETH I DDIWYGIO'R SENEDD

Yn bresennol yn y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Biliau Diwygio a'r Pwyllgor Biliau Diwygio

DAU

Aeth y Cadeirydd i ddau gyfarfod o rwydwaith Cadeiryddion y DU a dau gyfarfod o rwydwaith swyddogion y DU

ADOLYGIADAU THEMATIG

Cymorth i bleidiau gwleidyddol: Daeth y cylch ymgysylltu cyntaf a'r sesiynau casglu tystiolaeth i ben, gan gynnwys ymchwil gymharol ryngwladol.

Ffyrdd o weithio: Ymgysylltu â'r Aelodau ac ymweliadau etholaethol a chyhoeddi papur canllaw cryno.

Symleiddio: Croesawyd newidiadau i'r Penderfyniad i'w gwneud yn haws ac yn gyflymach hawlio costau busnes.

Cyflogau a Chymorth Personol i'r Aelodau: Cytunwyd ar gylch gorchwyl, cafwyd ymchwil gymharol ryngwladol a thrafodaethau cychwynnol gyda'r Aelodau.

Cymorth Staff: Cwblhawyd Cam 1 a chomisiynwyd adolygiad allanol o'r fframwaith cyflogau a graddio presennol.

Bwrdd Taliadau Annibynnol

EIN DIBEN

Mae **Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd** yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y cyflog a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau o'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol, ac i alluogi'r rheini a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swydd yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru.

EIN HEGWYDDORION ARWEINIOL

Rydym yn gwneud penderfyniadau ar y system cymorth ariannol a thâl cydnabyddiaeth i Aelodau.

Dylai ein penderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.

Dylai ein penderfyniadau gefnogi pwrpas strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau.

Dylai ein penderfyniadau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy, yn gynhwysol, ac yn cynrychioli gwerth am arian i'r trethdalwr.

EIN NODAU AR GYFER Y TYMOR

Galluogi Aelodau'r Chweched Senedd i gyflawni eu gwaith seneddol yn effeithiol, yn eu hardal leol ac yn y Senedd. Paratoi pecyn cyflog a chefnogaeth ar gyfer y Seithfed Senedd.

Y cyfan o fewn cyd-destun cyfansoddiadol, cymdeithasol a byd-eang sy'n newid.

EIN HAMCANION STRATEGOL

PENDERFYNIAD YMATEBOL: Cyflwyno Penderfyniad sy'n ymateb i anghenion busnes newidiol Aelodau, disgwyliadau dinasyddion a'r cyd-destun cyfansoddiadol esblygol.

PENDERFYNIAD SYMLACH: Symleiddio'r Penderfyniad i ddarparu hyblygrwydd i Aelodau i bennu eu blaenoriaethau eu hunain, gyda mesurau diogelwch cymesur, mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Senedd.

PENDERFYNIAD CYNALIADWY: Cyflwyno model cynaliadwy o gefnogaeth, sy'n ystyried anghenion o ran amrywiaeth, yr argyfwng newid yn yr hinsawdd a chyllid yn y tymor hir yng Nghymru.

HYRWYDDO YMDDIRIEDAETH AC YMGYSYLLTU: Ymgysylltu'n effeithiol ag Aelodau ac ystod ehangach o randdeiliaid i alluogi adolygiadau effeithiol a hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd.

SUT BETH YW LLWYDDIANT?

- Mae Aelodau'n ymddiried ac yn parchu'r penderfyniadau a wnawn ac yn eu hystyried yn deg, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn glir.
- Mae gan Aelodau hyder bod ein penderfyniadau yn eu galluogi i gyflawni eu gwaith fel cynrychiolwyr etholedig yn effeithiol.
- Mae gan y cyhoedd hyder bod y system i ddarparu cefnogaeth ariannol i Aelodau yn darparu gwerth am arian, yn dryloyw, ac yn gweithredu'n annibynnol.

Roedd pum sesiwn 'galw heibio' anffurfiol lle roedd aelodau'r Bwrdd ar gael i drafod materion o bryder neu o ddiddordeb i Aelodau.

Llun chwith uchaf: y Cadeirydd, Dr Elizabeth Haywood, mewn sesiwn dystiolaeth

2. Gwaith y Bwrdd

Beth yw'r Bwrdd?

1. Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn gorff statudol annibynnol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y taliadau ac adnoddau priodol ar gael i Aelodau o'r Senedd ('Aelodau') fel y gallant ymgymryd â'u rôl. Mae hyn yn cynnwys pennu cyflogau Aelodau a'r symiau y gallant eu hawlio ar gyfer costau staffio a swyddfa.

2. Mae Comisiwn y Senedd yn rhoi cefnogaeth ysgrifenyddol i'r Bwrdd i'w alluogi i weithredu'n effeithiol. Caiff y gyllideb ar gyfer cymorth gweinyddol i'r Bwrdd (gweler Atodiad A) a'r gyllideb i dalu'r holl gostau sy'n deillio o'r Penderfyniad eu dyrannu gan Gomisiwn y Senedd bob blwyddyn.

Beth yw'r Penderfyniad?

3. Mae'r Bwrdd yn pennu cyflogau'r Aelodau a'r symiau y gallant eu hawlio ar gyfer costau busnes a staffio mewn dogfen o'r enw'r Penderfyniad.

4. Mae'r Bwrdd yn ymgysylltu ag Aelodau, eu Staff Cymorth a Chomisiwn y Senedd drwy gydol y flwyddyn i ddeall unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau o ran anghenion er mwyn adlewyrchu'r rhain mewn adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad. Fel rhan o'r adolygiad blynyddol, mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried y rhagolygon economaidd ac unrhyw gynnydd ar sail chwyddiant i gyllidebau Aelodau a chyflogau staff.

Sut mae'r Penderfyniad yn cael ei weinyddu?

5. Comisiwn y Senedd sy'n gyfrifol am weinyddu'r Penderfyniad, prosesu hawliadau'r Aelodau a rhoi arweiniad a chymorth i Aelodau a'u staff ar faterion sy'n ymwneud â gweithredu'r Penderfyniad. Mae Cod Ymddygiad y Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ddilyn y Rheolau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd wrth hawlio eu costau.

6. Mae manylion yr holl hawliadau a dalwyd i Aelodau ar gael ar Wefan Comisiwn y Senedd.

7. Ceir rhagor o wybodaeth am weithrediad y rolau statudol a'r gyd-ddibyniaeth rhwng y Comisiwn a'r Bwrdd yn Siarter y Bwrdd, a ddiwygiwyd gan y Bwrdd yn 2023-24 ac a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023.

Egwyddorion y Bwrdd

8. Mae cyfres o egwyddorion a ddiffiniwyd yn glir yn sail i waith y Bwrdd:

- dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau;
- mae'n rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru; a
- rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

9. Cyhoeddir yr adroddiad blynyddol hwn yn unol â'r ddeddfwriaeth a sefydlodd y Bwrdd Taliadau, Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010[1]. Mae'n nodi'r canlynol:

> *'Rhaid i'r Bwrdd, cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, osod gerbron y Senedd adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau, gan gynnwys sut mae wedi defnyddio adnoddau, yn ystod y flwyddyn ariannol honno.'*

Rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y Chweched Senedd

10. Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar raglen waith i wneud gwelliannau i'r Penderfyniad yn y Senedd hon ac i gyflwyno Penderfyniad i ddiwallu anghenion y Seithfed Senedd.

11. Mae'r rhaglen waith strategol ar gyfer 2021-26 yn cynnwys yr amcanion canlynol:

- Penderfyniad Ymatebol
- Penderfyniad Symlach
- Penderfyniad Cynaliadwy
- Hyrwyddo Ymddiriedaeth ac Ymgysylltu

[1] Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (legislation.gov.uk)

12. Mae'r Bwrdd wedi trefnu'r gwaith hwn yn unol â'r pum adolygiad 'thematig' a ganlyn a fydd yn ystyried y broses diwygio'r Senedd:

- Penderfyniad symlach;
- adolygiad o'r cymorth staffio i Aelodau;
- newid ffyrdd o weithio;
- lwfans cymorth i bleidiau gwleidyddol; ac
- adolygiad o daliadau a chymorth personol yr Aelodau

3. Penderfyniad ymatebol

"Bydd y Bwrdd yn ceisio cyflwyno Penderfyniad sy'n ymateb i newidiadau i anghenion busnes yr Aelodau, disgwyliadau dinasyddion, a'r cyd-destun cyfansoddiadol newidiol."

13. Yn ystod y flwyddyn hon cynhaliodd y Bwrdd ymgynghoriad a gwaith ymgysylltu ag Aelodau, eu staff a Chomisiwn y Senedd i sicrhau bod y Penderfyniad yn parhau i ddiwallu anghenion yr Aelodau. Roedd hyn yn cynnwys cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Grŵp Cynrychiolwyr Aelodau o'r Senedd, penaethiaid staff a Grŵp Cynrychiolwyr Staff Cymorth, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o undebau Unite, GMB a PCS. Ymgynghorodd y Bwrdd hefyd â'r Comisiwn i sicrhau bod ei benderfyniadau'n ymatebol i bwysau ariannol neu newidiadau o ran anghenion busnes sy'n dod i'r amlwg (gweler Adran 6).

14. Rhoddodd y Bwrdd dystiolaeth hefyd i lywio gwaith craffu'r Senedd ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Mae'r ddeddfwriaeth yn llywio dyfodol y Senedd a chyfrannodd y Bwrdd wybodaeth am ei waith i baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd yn ogystal â gwybodaeth am y goblygiadau ar gyfer amcangyfrifon cost yn ystod y trafodaethau deddfwriaethol ar ddiwygio'r Senedd.

Costau busnes

15. Er mwyn sicrhau nad oedd y cynnydd mewn costau byw yn rhwystro Aelodau rhag gallu cyflawni eu dyletswyddau, cynyddwyd y cyfraddau uchaf y gall Aelodau eu hawlio i ad-dalu costau cynnal swyddfa yn unol â'r gyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr[2] fel yr oedd ym mis Ionawr 2024. Mae hyn yn golygu bod y swm sydd ar gael i Aelodau wedi cynyddu yn unol â chwyddiant. Mae'r cynnydd hwn yn berthnasol nid yn unig i gostau llety a swyddfa, ond hefyd i elfen o'r lwfans cymorth i bleidiau gwleidyddol a'r lwfans gofalu.

16. I gydnabod y ffaith ei bod yn gynyddol anodd dod o hyd i lety dros nos o fewn y cyfraddau uchaf a ganiateir, ac o ystyried gwerth am arian, cytunodd y Bwrdd y gall Aelodau hawlio am gost gwesty y tu allan i ardal Caerdydd os nad ydynt yn gallu dod o hyd i westy yn ardal Caerdydd am resymau cost neu argaeledd. Cytunwyd hefyd i eithrio cost brecwast a pharcio o'r gyfradd uchaf.

[2] Chwyddiant prisiau defnyddwyr, y DU – Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cyflogau Aelodau

17. Cynyddwyd cyflogau aelodau 3 y cant o fis Ebrill 2024. Mae hyn yn dilyn y penderfyniad a wnaed ar ddechrau'r Chweched Senedd i gyfrifo'r cynnydd i gyflogau'r Aelodau drwy gyfeirio at **Fynegai ASHE Cymru** (5.7 y cant), yn amodol ar uchafswm o 3 y cant ac isafswm o 0 y cant.

18. Ymatebodd y Bwrdd i alwadau am fwy o fanylion ar sut mae cyflogau'r Aelodau yn cael eu haddasu o fewn tymor y Senedd. Cyhoeddwyd llythyr ochr yn ochr â'r Penderfyniad diwygiedig a oedd yn egluro bod gallu'r Bwrdd i benderfynu ar gyflog Aelodau wedi'i nodi ym **Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010**. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn nodi na all y Bwrdd wneud mwy nag un penderfyniad ar gyflogau'r Aelodau ar gyfer pob tymor y Senedd (y cyfnod rhwng etholiadau). Ni ellir newid y penderfyniad ar gyflogau'r Aelodau yn ystod y Chweched Senedd, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

Cyflogau Staff

19. Cytunodd y Bwrdd i roi taliad ychwanegol o £600 i'r holl Staff Cymorth ym mis Ionawr 2024, pro rata, yn unol ag oriau gwaith contract, i helpu gyda phwysau parhaus costau byw uwch. Cytunodd y Bwrdd hefyd ar fesurau ariannol i sicrhau bod staff Band 3, Pwynt Cyflog 1 yn cael y Cyflog Byw gwirioneddol o 1 Tachwedd 2023 ymlaen a chyflwynodd ddarpariaeth i gynyddu'n awtomatig unrhyw bwynt cyflog staff sydd islaw'r Cyflog Byw gwirioneddol i Gymru (fel y'i diffinnir gan y Sefydliad Cyflog Byw yng Nghymru).

20. O ystyried y pwysau parhaus o ran costau byw, gwnaeth y Bwrdd ddileu'r cap ar gyflogau staff yn ystod yr adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer 2024-25, a gynyddwyd yn ôl ffigur ASHE Cymru o 5.7 y cant. Mae un o ddau daliad costau byw o £600 a wnaed yn 2023-24 bellach wedi'i gyfuno â phob pwynt cyflog o 1 Ebrill 2024.

Ffyrdd o weithio

21. Mae'r Bwrdd wedi parhau i ystyried sut mae ffyrdd o weithio Aelodau a'u staff wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac a oedd angen unrhyw newidiadau i'r Penderfyniad i adlewyrchu ffyrdd newydd o weithio.

22. Mae aelodau'r Bwrdd wedi cael trafodaethau ag Aelodau a staff ac wedi ymweld â swyddfeydd etholaeth, er mwyn sicrhau bod y Penderfyniad yn adlewyrchu sut mae Aelodau'n gweithio ac yn cael eu cefnogi yn eu hetholaethau, rhanbarthau a swyddfeydd seneddol yn Nhŷ Hywel.

23. Mae'r Bwrdd wedi adolygu p'un ai'r Lwfans Gweithio Gartref oedd y mecanwaith mwyaf priodol o hyd i gefnogi gweithio gartref ymhlith Staff Cymorth yr Aelodau, neu a ddylai staff wneud unrhyw hawliad perthnasol am ryddhad treth ar gostau gweithio gartref yn uniongyrchol drwy CThEF. Ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, gan gynnwys Aelodau a staff, penderfynodd y Bwrdd y byddai'r Lwfans Gweithio Gartref yn cael ei gadw ond yn cael ei adolygu fel rhan o'r gwaith i baratoi Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd.

24. Lluniodd y Bwrdd 'nodyn cyfarwyddyd' i Aelodau a staff yn rhoi crynodeb o'r lwfansau sydd ar gael i gefnogi gweithio gartref a gwaith hybrid.

Cynllun pensiwn yr Aelodau

25. Mae'r Bwrdd yn ddiolchgar iawn i Gadeirydd Bwrdd Pensiynau Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd, Jill Youds, a roddodd y gorau i'w rôl ar ôl bron i wyth mlynedd o wasanaeth gwerthfawr i'r Bwrdd. Gyda chymorth timau Pensiynau ac Adnoddau Dynol Comisiwn y Senedd, mae Cadeirydd dros dro newydd wedi'i benodi. Croesawodd y Bwrdd Gregor Law, a benodwyd drwy Ymddiriedolwyr Dalriada, i rôl y Cadeirydd dros dro ac mae'n edrych ymlaen at weithio gydag ef.

26. Cafodd y Bwrdd ddiweddariad gan Actiwari Cynllun Pensiwn yr Aelodau ar ganlyniadau'r prisiad cyllid a gynhelir bob tair blynedd a nododd benderfyniad yr Actiwari y byddai cyfradd cyfraniadau'r Comisiwn yn gostwng o 19.9 y cant i 18 y cant, gan adlewyrchu'r gwelliant yn lefel ariannu'r Cynllun tra'n cadw byffer rhag unrhyw brofiad marchnad andwyol. Gwnaeth yr Actiwari ymgynghori â'r Bwrdd Taliadau, y Comisiwn a'r Bwrdd Pensiynau ar y newid hwn sy'n dod i rym o 1 Ebrill 2024.

27. Mae'r Bwrdd yn parhau i fonitro goblygiadau treth gweithredu'r rhwymedi ar gyfer Aelodau yr effeithir arnynt gan ddyfarniad McCloud ac mae'n cael diweddariadau rheolaidd ar yr opsiynau y mae swyddogion y Comisiwn yn eu harchwilio.

28. Yn ystod y flwyddyn hon, roedd rôl yr Ymddiriedolwr a Enwebwyd gan yr Aelodau ar y Bwrdd Pensiynau yn destun adolygiad. Yn dilyn pleidlais ymhlith aelodau, ailetholwyd Mike Hedges AS i'r rôl ac felly bydd yn parhau i wasanaethu am dymor arall o bedair blynedd. Cadarnhaodd y Bwrdd yr enwebiad hwn.

Treuliau eithriadol

29. Mae'r Penderfyniad wedi'i ddrafftio i roi digon o gyllideb i'r Aelodau i sicrhau y gellir talu'r holl gostau busnes neu staffio a ganiateir. Ar adegau, gall amgylchiadau nad ydynt wedi'u rhagweld sy'n aml y tu allan i reolaeth Aelod olygu bod angen cyllid ychwanegol neu fwy o

hyblygrwydd; mae'r Penderfyniad a'r Bwrdd yn ymatebol i 'amgylchiadau eithriadol' o'r fath. Pan fydd y rhain yn codi, gofynnir i'r Bwrdd ystyried yr achos dros ddarparu cymorth ariannol eithriadol.

30. Yn ystod 2023-24 derbyniodd y Bwrdd ddau gais newydd a chymeradwyodd ddau daliad newydd. Cyfanswm yr hawliadau treuliau eithriadol newydd a pharhaus y cytunodd y Bwrdd arnynt mewn blynyddoedd blaenorol oedd £6476.75.

31. Mae'r Bwrdd yn adolygu'r holl daliadau lwfansau eithriadol parhaus yn rheolaidd ac o leiaf yn flynyddol (mewn achosion pan fo'r cyfnod ar gyfer taliadau ychwanegol yn ymestyn y tu hwnt i 12 mis). Y rheswm dros hyn yw sicrhau bod angen y cymorth sydd wedi'i ddarparu o hyd, ac asesu a fu unrhyw newid yn yr amgylchiadau.

Diogelwch

32. Caiff mesurau diogelwch ar gyfer cartrefi a swyddfeydd yr Aelodau y mae Tîm Diogelwch Comisiwn y Senedd yn eu hystyried yn angenrheidiol eu hariannu o'r Penderfyniad.

33. Fel rhan o'r Prosiect Diogelwch Aelodau, cynhaliwyd asesiadau o gartrefi a swyddfeydd yr Aelodau ac mae unrhyw fesurau diogelwch gofynnol wedi'u gosod. Mae asesiadau wedi'u cwblhau ar gyfer yr Aelodau hynny a gytunodd iddynt, ac mae'r Tîm Diogelwch wedi cysylltu eto â'r rhai a wnaeth wrthod yn flaenorol.

34. Mae'r Bwrdd yn ymgysylltu'n flynyddol â'r Comisiwn i sicrhau ei fod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wneir i wella mesurau diogelwch ar gyfer Aelodau. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod darpariaethau'r Penderfyniad yn sicrhau bod y mesurau pwysig hyn yn cael eu cyflawni.

4. Penderfyniad symlach

"Bydd y Bwrdd yn ceisio symleiddio'r Penderfyniad gan gynnwys mwy o hyblygrwydd i Aelodau bennu eu blaenoriaethau eu hunain gyda mesurau diogelu cymesur, mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Senedd."

35. Mae'r Bwrdd yn parhau â'i waith i symleiddio'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer Aelodau a'u staff y mae'n eu gosod yn y Penderfyniad. Cafodd nifer o newidiadau i'r Penderfyniad eu cyflwyno yn ystod yr adolygiad blynyddol yn 2023-24 i'w gwneud yn haws ac yn gynt i Aelodau gynllunio eu gwaith a hawlio ad-daliad ar gyfer costau busnes. Y rhain yw:

- Nid yw bellach yn ofynnol i Aelodau ofyn am ganiatâd ymlaen llaw gan Gomisiwn y Senedd cyn mynd i gostau llety ar gyfer aros dros nos y tu allan i Gymru ond o fewn y DU;
- Dim ond un achos busnes y mae angen i Aelodau eu cyflwyno mewn perthynas ag ymweliad gan fwy nag un Aelod am deithiau rhyngwladol;
- Mae gan aelodau fwy o hyblygrwydd i gefnogi busnesau lleol gan nad oes rhaid iddynt brynu na llogi llungopïwyr o restr gymeradwy o gyflenwyr;
- Mae'r Penderfyniad yn nodi'n glir bod y cyfraddau y gall staff Aelodau eu hawlio ar gyfer teithio ac aros mewn gwesty yr un fath â chyfraddau'r Aelodau;
- Cyhoeddwyd fersiwn 'newidiadau wedi'u tracio' o'r Penderfyniad ar-lein, gan ei gwneud yn haws gweld beth sydd wedi newid.

36. Cyflwynwyd newidiadau i'r Penderfyniad hefyd i sicrhau ei bod mor syml â phosibl i Aelodau a'u staff ddeall pa gyllid fydd ar gael a sut i'w hawlio, ac i Gomisiwn y Senedd gymhwyso'r drefn mewn modd cyson, a chan olygu llai o risg o anghydfod. Y rhain yw:

- Newidiwyd y geiriad o ran cyflwyno hawliadau hwyr am gostau busnes yr Aelodau. Roedd sylwadau ar y Penderfyniad yn dangos bod anghysondeb a dryswch ynghylch y defnydd o'r geiriau '*bydd*' a '*gall*' (neu 'must' a 'may') yn yr un paragraff ar brosesu hawliadau hwyr. Diwygiwyd y geiriad i ddangos y '*bydd*' cyflwyno hawliad yn hwyr heb gyfiawnhad rhesymol yn arwain at wrthod yr hawliad. Teimlwyd bod hyn yn lleihau dryswch ac yn cynyddu amseroldeb hawliadau gan arwain at sefyllfa gyllidebol fwy cywir ar gael i staff, gan alluogi mwy o reolaeth a chynllunio cyllidebol.

- Mae'r Penderfyniad yn nodi'n glir bod ad-daliadau ar gyfer costau llety ar fusnes pwyllgor yn fater i Gomisiwn y Senedd ac nid yw wedi'i gynnwys yn y Penderfyniad hwn;

- Mae'r uchafswm o ddiwrnodau a ystyrir yn 'amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus' bellach yn cael eu cyfrifo dros flwyddyn ariannol yn hytrach na chyfnod treigl o 12 mis. Bydd hyn yn cyd-fynd yn fwy priodol â'r gofynion ar gyfer hyfforddiant gorfodol i luoedd arfog ac yn sicrhau bod y lwfans hwn yn gyson â lwfansau eraill sy'n seiliedig ar flwyddyn ariannol.

5. Penderfyniad cynaliadwy

"Bydd y Bwrdd yn ceisio cyflwyno model cymorth cynaliadwy, sy'n ystyried yr amrywiaeth o anghenion, yr argyfwng newid hinsawdd, a'r sefyllfa ariannol hirdymor yng Nghymru."

Diwygio'r Senedd

37. Mae adolygiadau thematig y Bwrdd yn ceisio sicrhau bod y Penderfyniad yn adlewyrchu'r newidiadau mewn trefniadau busnes a chyfansoddiadol Aelodau, gan gynnwys unrhyw newidiadau sy'n deillio o ddeddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd.

38. Ym mis Tachwedd, rhoddodd Cadeirydd a Chlerc y Bwrdd dystiolaeth i Bwyllgor Diwygio'r Senedd a'r Pwyllgor Cyllid ar gostau posibl Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r goblygiadau i'r Penderfyniad a gwaith y Bwrdd. Ysgrifennodd y Bwrdd hefyd at y Pwyllgor Cyllid i roi mwy o fanylion am yr effaith y gallai ychwanegu 36 o Aelodau newydd â phroffil oedran is ei chael ar gynllun pensiwn yr Aelodau.

Adolygiad o'r cymorth i grwpiau gwleidyddol

39. Cytunodd y Bwrdd i adolygu'r lwfans cymorth i bleidiau gwleidyddol a gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw newidiadau cyn y Seithfed Senedd. Mae'r adolygiad yn ystyried diben y lwfans, yn cynnal dadansoddiad cymharol â modelau ariannu seneddol eraill ac yn ystyried effaith bosibl newidiadau sy'n deillio o ddeddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd.

40. Cynhaliwyd cam cyntaf y gwaith ymgysylltu yn ystod tymor yr hydref. Cyfarfu aelod arweiniol y Bwrdd ag arweinwyr y pleidiau, chwipiaid, cadeiryddion a phenaethiaid staff o'r grwpiau Llafur, Ceidwadwyr Cymreig a Phlaid Cymru ac Aelod y Democratiaid Rhyddfrydol.

41. Yn ystod trafodaethau gyda'r Aelodau ystyriwyd sut mae'r trefniadau presennol yn gweithredu a natur a graddfa'r cymorth a ddarperir drwy swyddfeydd y grwpiau. At hynny, cynhaliwyd ymchwil desg i archwilio modelau ariannu eraill ar gyfer grwpiau seneddol ac i adolygu llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes. Dangosodd fod seneddau mewn llawer o wledydd yn rhestru swyddogaethau tebyg ar gyfer grwpiau plaid (e.e. ymchwil, cyfathrebu, gweinyddu, datblygu polisïau), ond bod y ffordd y caiff cyllid ei ddyrannu a'r ymagwedd at atebolrwydd a hunanreoleiddio yn amrywio'n sylweddol.

Adolygiad o gyflogau'r Aelodau a chymorth personol

42. Bu'r Bwrdd yn ymgynghori ar y cylch gorchwyl ar gyfer adolygiad thematig o Gyflogau a Chymorth Personol yr Aelodau i lywio'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd, a chytunodd arno. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn 2024-25 a bydd yn ystyried pob agwedd ar gyflogau'r Aelodau, gan gynnwys lefelau cyflog a'r mecanwaith ar gyfer addasu cyflogau'n flynyddol.

Adolygiad o ffyrdd o weithio

43. Wrth baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd, mae'r Bwrdd yn ystyried pa newidiadau y gallai fod eu hangen, gan gynnwys cynnydd mewn maint a chyflwyno etholaethau aml-aelod. Bydd yn blaenoriaethu ffyrdd o weithio a fydd yn galluogi Aelodau i weithio'n fwy cynaliadwy ac sy'n ystyriol o sefyllfa ariannol hirdymor Cymru.

Adolygiad o gymorth staffio

44. Mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad thematig o staffio a fydd yn ystyried y fframwaith cyflogau a graddfeydd ar gyfer staff cymorth yr Aelodau a staff grŵp a chyfanswm y lwfans staffio ar gyfer Aelodau'r Seithfed Senedd.

45. Cwblhawyd cam cyntaf y gwaith hwn yn 2023-24, a chynhaliwyd adolygiad annibynnol o'r fframwaith cyflogau a graddfeydd presennol gan Beamans Consulting Group. Cynhaliodd Beamans gyfweliadau, grwpiau ffocws ac arolygon gydag Aelodau a staff cymorth a chynhaliodd ymchwil i gasglu tystiolaeth ar y fframwaith presennol a'r rheolau cysylltiedig, a'r newidiadau arfaethedig y gallai fod eu hangen ar gyfer tymor presennol y Senedd ac ar gyfer y Seithfed Senedd. Cyhoeddir yr adroddiad yn gynnar yn 2024-25 pan fydd y Bwrdd yn ystyried y camau nesaf, gan gynnwys cynllunio fframwaith cyflogau a graddfeydd newydd a chwantwm staffio ar gyfer y Seithfed Senedd.

6. Hyrwyddo ymddiriedaeth ac ymgysylltu

"Bydd y Bwrdd yn ceisio ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid er mwyn gallu cynnal adolygiadau effeithiol a hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd."

Ymgysylltu â'r Aelodau a'u staff

46. Er mwyn hybu dealltwriaeth o'u gwaith a cheisio adborth ar y cymorth a ddarperir drwy'r Penderfyniad, mae'r Bwrdd wedi ymgysylltu'n eang ag Aelodau'n anffurfiol ac yn ffurfiol yn ystod 2023-24, gan gyfarfod â 34 o Aelodau ar wahanol adegau, rhai ohonynt fwy nag unwaith.

47. Cyfarfu'r Bwrdd â Grŵp Cynrychiolwyr yr Aelodau bum gwaith a'r Grŵp Cynrychiolwyr Staff chwe gwaith, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o undebau Unite, GMB a PCS.

48. Mae Cadeirydd y Bwrdd wedi rhoi tystiolaeth i ddau o Bwyllgorau'r Senedd mewn perthynas â deddfwriaeth Diwygio'r Senedd.

49. Roedd pum sesiwn 'galw heibio' anffurfiol lle roedd aelodau'r Bwrdd ar gael i drafod materion o bryder neu o ddiddordeb i Aelodau.

50. Er mwyn llywio'r adolygiad ffyrdd o weithio ac i gael gwell dealltwriaeth o heriau ac amgylchedd gwaith staff, mae aelodau'r Bwrdd wedi ymweld â naw swyddfa etholaeth i siarad â staff.

51. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cyfarfod ag arweinwyr grwpiau, penaethiaid staff ac Aelodau fel rhan o'i adolygiadau thematig o Gyflogau Aelodau a'r adolygiad o gymorth i bleidiau gwleidyddol, a gwnaeth Aelodau a staff gael cyfweliad neu gymryd rhan mewn grwpiau ffocws neu waith arolwg fel rhan o'r gwaith casglu tystiolaeth a gynhaliwyd gan Beamans Consulting ar gyfer Cam 1 yr adolygiad staffio.

52. Lansiwyd Adroddiad Blynyddol 2022-23 mewn digwyddiad ym mis Gorffennaf lle gwahoddwyd Aelodau a staff i ddysgu am y newidiadau a gyflwynwyd gan y Bwrdd a rhoi adborth ar eu profiadau i lywio pob un o'r pum adolygiad thematig.

Trafodaethau gyda Chomisiwn y Senedd

53. Mae'r Cadeirydd wedi cyfarfod â'r Llywydd ddwywaith yn ystod 2023-24 i drafod materion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr ac ystyried rhaglen o drafodaethau a chydweithio ar feysydd o ddiddordeb a rennir rhwng y Bwrdd a'r Comisiwn, i ddechrau yn 2024-25.

54. Mae Cadeirydd y Bwrdd yn cyfarfod â Phrif Weithredwr a Chlerc y Senedd yn rheolaidd i drafod gwaith y Bwrdd a sut y mae'n ymwneud â chyfrifoldebau'r Comisiwn ar gyfer gweithredu penderfyniadau'r Bwrdd. Mae'r cyfarfodydd hefyd wedi cynnwys trafodaethau ar baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd a chyllidebu.

55. At hynny, mae aelodau'r Bwrdd wedi cyfarfod â'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr i drafod yr adolygiad o gymorth i bleidiau gwleidyddol a'r gwaith i symleiddio geiriad y Penderfyniad a sut y caiff ei weithredu.

Rhwydweithiau'r DU

56. Aeth aelodau'r Bwrdd i gyfarfod rhwng cyrff taliadau pedair deddfwrfa'r DU yn Llundain, a gynhaliwyd gan IPSA, a chafwyd cyfarfod hefyd o gadeiryddion byrddau'r cyrff perthnasol. Roedd yn gyfle i gymharu a dysgu am wahanol ddulliau o fynd i'r afael â'r heriau o hwyluso gwaith Aelodau. Cyfarfu'r Cadeirydd hefyd â Richard Lloyd OBE, Cadeirydd yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol ym mis Tachwedd.

57. Mae rhwydwaith ar gyfer swyddogion sy'n cefnogi cyrff taliadau deddfwrfeydd y DU hefyd wedi'i sefydlu, gyda dau gyfarfod rhithwir yn cael eu cynnal yn 2023-24, i rannu datblygiadau polisi a thystiolaeth i lywio gwaith y Bwrdd.

Ymateb i argymhellion yr adolygiad canol tymor o effeithiolrwydd

58. Cytunodd y Bwrdd ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adolygiad canol tymor o effeithiolrwydd. Un o'r argymhellion hynny oedd cyhoeddi 'siarter' yn nodi nid yn unig rôl y Bwrdd, ond hefyd sut y mae'n gweithio ochr yn ochr â Chomisiwn y Senedd i gefnogi Aelodau a'u staff.

59. Cafodd y Siarter, gan gynnwys trefniadau llywodraethu, sut mae'r Bwrdd yn cyflawni ei gylch gwaith ochr yn ochr â'r Comisiwn, a'i ddull o reoli risg, ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf.

60. Mae cynnydd yn erbyn camau gweithredu eraill a argymhellwyd, gan gynnwys mwy o ymgysylltu ag Aelodau a'u staff, a'r adolygiad ac adrodd parhaus ar waith y Bwrdd wedi'i

gynnwys yn yr adroddiad blynyddol hwn ac mae hefyd ar gael mewn mwy o fanylder ar wefan y Bwrdd.

7. Edrych tua'r dyfodol

61. Bydd y Bwrdd yn canolbwyntio ei ymdrechion ar yr adolygiadau thematig i sicrhau y bydd canlyniadau a manteision y gwaith yn llywio'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd.

62. Bydd penderfyniad ynghylch y ffordd y mae Aelodau yn hawlio costau busnes ar gyfer eu swyddfeydd ar gyfer y Seithfed Senedd yn yr adolygiad thematig ffyrdd o weithio a fydd yn cyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau yn ystod 2024-25. Bydd y Bwrdd yn cynnal trafodaethau â Chomisiwn y Senedd, gan ganolbwyntio ar yr adolygiad thematig ffyrdd o weithio yn y lle cyntaf.

63. Bydd yr adolygiad o gyflogau a chymorth i Aelodau yn ystyried lefel cyflogau Aelodau a'r costau teithio a llety y gellir eu had-dalu cyn yr etholiad nesaf. Mae'r Bwrdd yn comisiynu arbenigwyr allanol i gefnogi'r gwaith hwn. Bydd y canfyddiadau cychwynnol yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd cyn diwedd 2024. Byddant yn cael eu defnyddio i lywio rhaglen ymgysylltu ehangach.

64. Mae'r ffordd y cefnogir grwpiau plaid gyda staff ac adnoddau yn cael ei hadolygu.

65. Bydd cam nesaf yr adolygiad o gymorth staffio yn ystyried datblygu fframwaith cyflogau a graddfeydd newydd i staff ar gyfer y Seithfed Senedd. Bydd y Bwrdd hefyd yn ystyried yr gyllideb staffio gyffredinol y bydd ei hangen ar Aelodau yn nhymor newydd y Senedd, yn dilyn y broses o ddiwygio'r Senedd.

66. Bydd y newidiadau sy'n deillio o'r adolygiadau yn cael eu hadlewyrchu mewn Penderfyniad symlach, mwy eglur sydd wedi'i gynllunio i fod yn haws ei ddeall, er mwyn dangos yn gliriach i'r Aelodau beth y mae ganddynt hawl i'w hawlio a hefyd i fod yn haws i Gomisiwn y Senedd ei weinyddu.

67. Bydd ymrwymiad y Bwrdd i ymgysylltu agored a thryloyw ar y gwaith hwn a'i brosesau penderfynu yn parhau.

68. Os hoffech gyfrannu at waith y Bwrdd, e-bostiwch:

Taliadau@senedd.cymru

Atodiad A - Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd ar gyfer 2021-22

Mae adran 11 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn nodi bod rhaid i'r Adroddiad Blynyddol sy'n manylu ar weithgarwch y Bwrdd gynnwys sut y mae'r Bwrdd wedi defnyddio ei adnoddau yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r tabl isod yn dangos costau uniongyrchol y Bwrdd Taliadau ym mlwyddyn ariannol 2023-24. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd chwe chyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd â staff ysgrifenyddiaeth a nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ag Aelodau a staff cymorth.

Eleni roedd gan y Bwrdd fwy o gyfleoedd i gyfarfod ag Aelodau a staff wyneb yn wyneb, yn dilyn anawsterau o ran gwneud hynny yn y blynyddoedd blaenorol oherwydd cyfyngiadau teithio. At hynny, mae ysgrifenyddiaeth y Bwrdd wedi croesawu aelodau newydd o staff. Mae'r cyflenwad llawn o staff wedi galluogi'r Bwrdd i symud ei waith yn ei flaen yn gynt, gan gefnogi'r gweithgareddau a amlinellir yn yr adroddiad hwn fel y gellid ymgymryd â'r gwaith paratoi ar gyfer y Senedd nesaf ac adolygiadau thematig o gyflogau a chostau busnes yr Aelodau.

Mae'r tablau a ganlyn yn nodi ffioedd a threuliau aelodau'r Bwrdd.

Tabl 1 - Ffioedd aelodau'r bwrdd

	Dr Elizabeth Haywood	Michael Redhouse	Y Fonesig Jane Roberts	Hugh Widdis[3]	Syr David Hanson
Cyfradd ddyddiol[4]	£7,480.19	£1,045.91	£1,217.55	£8.85	£1,312.82
Cyfradd am hanner diwrnod	£2,400.00	£0	£1,085.00	£0	£310.00
Cyfradd yr awr	£4,133.08	£3,389.11	£1,740.41	£0	£1,591.21
Y cyfanswm a hawliwyd	£14,013.27	£4,435.02	£4,042.96	£8.85	£3,214.03

[3] Nid yw Hugh Widdis yn hawlio cyfradd ddyddiol am ei waith ar y Bwrdd. Mae'r gost yn ymwneud â'r cyfraniad Yswiriant Gwladol sy'n daladwy ar ei dreuliau.

[4] Y gyfradd ddyddiol ar gyfer y Cadeirydd yw £400, y gyfradd am hanner diwrnod yw £200 a chyfradd yr awr yw £53.33. Y gyfradd ddyddiol ar gyfer aelodau'r Bwrdd yw £310, y gyfradd am hanner diwrnod yw £155 a chyfradd yr awr yw £41.33.

Tabl 2 – Teithio a chynhaliaeth aelodau'r Bwrdd[5]

	Dr Elizabeth Haywood	Michael Redhouse	Y Fonesig Jane Roberts	Hugh Widdis	Syr David Hanson
Milltiroedd mewn car	£772.65	£0.00	£138.60	£14.40	£33.30
Tacsi/Llogi car	£0.00	£67.78	£0.00[6]	£268.49	£18.55
Teithiau awyr	£0.00	£0.00	£0.00	£554.49	£0.00
Trên a'r Tiwb	£202.85	£82.50	£605.43	£39.50	£306.00
Treuliau eraill	£48.25	£0.00	£0.00	£121.39	£0.00
Llety	£448.45	£223.48	£535.94	£478.47	£559.96
Arlwyo	£144.82	£16.90	£118.50	£83.04	£64.14
Cyfanswm	£1,617.02	£390.66	£1,398.47	£1,559.78	£981.95

[5] Mae Tabl 2 yn dangos symiau'r hawliadau teithio a chynhaliaeth a wnaed gan aelodau'r Bwrdd yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24. Y gwir gost i Gomisiwn y Senedd yw £9,090.22 oherwydd yr angen i gyfrif i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi am dreth incwm ac Yswiriant Gwladol ar y taliadau hyn.

[6] Pan fo aelodau Bwrdd yn rhannu tacsi i Dŷ Hywel ar gyfer cyfarfodydd, dyrennir y gost i fwy nag un hawliad teithio.

Tabl 3 - Costau ychwanegol

Mae Tabl 3 yn dangos costau eraill y Bwrdd megis y rhai sy'n gysylltiedig â chynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb a cheisio cyngor allanol sy'n ymwneud â Rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Mae'r tabl hwn hefyd yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â chefnogi'r adolygiad thematig o gymorth staffio.

Tâl blynyddol y Comisiwn Gwybodaeth	£40.00
Ymchwil a chyngor arbenigol	£52,700.00
Arlwyo	£667.09

Tabl 4 - Cyfanswm y costau

Cyfanswm ffioedd aelodau'r Bwrdd (tabl 1)	£25,714.12
Cyfanswm teithio a chynhaliaeth aelodau'r Bwrdd (tabl 2)	£5,947.88
Costau ychwanegol (tabl 3)	£53,407.09
Costau staffio[7]	£450,391.00
Cyfanswm y costau ar gyfer 2023/24	£ 535,460.09

[7] Mae costau staffio ar gyfer y tîm clercio sy'n cefnogi'r Bwrdd wedi'u cynnwys yma fel y cytunwyd arno â Chomisiwn y Senedd ar gyfer 2023-24.